Gweiddi

# Dydd Mawrth Crempog

1. Pa air Cymraeg rydych chi'n ei ddefnyddio / yn ei hoffi orau am 'pancake'?

2. Ydych chi'n prynu crempog/pancos neu'n eu gwneud gartref? Beth yw hoff lenwadau'r dosbarth?

3. Gwyliwch y fideo eto o **00:38** i **00:58** ac ysgrifennwch y rysáit ar gyfer gwneud crempog. Mae'r cynhwysion yn rhif 5. (Y cwestiynau cyffredinol, felly dim ond y dull sydd ar ôl.)

4. Mae’r llinell: ‘Mae ’ngheg i’n grimp am grempog’ yn cael ei dyfynnu yn y fideo.
   - Oes rhywun yn y dosbarth yn gwybod y pennill i gyd?
   - Oes rhywun yn cofio sut mae canu’r pennill?

**Atebion:**

1. Dydd Mawrth Ynyd, Dydd Mawrth Tew
2. 40 diwrnod, Y Grawys yw'r enw ar y cyfnod hwn.
3. Llaeth, wyau a blawd
4. Llenwadau
5. 1 peint o laeth
   2 wy
   225g o flawd plaen
   Pinsied o halen
   25g o fenyn wedi toddi.
6. Blawd codi (self-raising)
7. America a Mecsico
8. Yemen, gogledd Affrica, y Dwyrain Canol, De America
9. Dydd Mawrth Ynyd, crempog bob munud
10. Crempogen, ffroisen, cramwythen, pancosen, pancocsen, pancogen
11. Crumpet
12. Siwgr, sudd lemwn a Nutella

4. Modryb Elin Ennog,
   Os gwelwch chi'n dda, ga' i grempog?
   Cewch chithau de a siwgr gwyn
   A phwdin lond eich ffedog.

   Modryb Elin Ennog,
   Mae 'ngheg i'n grimp am grempog.
   Mae Mam yn rhy dlawd i brynu blawd,
   A Siân yn rhy ddiog i nôl y triog
   A 'Nhad yn rhy wael i weithio.

Os gwelwch chi'n dda, ga' i grempog?